

# Yr Angel Gyllell yn Aberystwyth, Ceredigion Mehefin 2022

# Arfarniad ôl Ymgysylltu

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu Police
DYFED POWYS

# Rhagair

Braint i mi oedd cefnogi a noddi ail ymweliad yr Angel Cyllyll â Chymru. Croesawom y cerflun am y tro cyntaf i'r Drenewydd, Powys, ym mis Ionawr 2020 ac yn fwy diweddar i Aberystwyth, Ceredigion ym Mehefin 2022. Cydlynodd fy Swyddfa 28 diwrnod o weithdai addysgol a gweithgarwch ymgysylltu yn y dref, ochr yn ochr â nifer o bartneriaid. Cafodd plant a phobl ifanc, trigolion lleol, grwpiau cymunedol, partneriaid ac ymwelwyr i'r ardal i gyd wahoddiad a'u hannog i gymryd rhan. Rhannwyd negeseuon atal, gwrth-drais ac ymddygiad ymosodol allweddol trwy gydol y mis, gan ganiatáu i bobl, ac yn hollbwysig, pobl ifanc, i sefyll yn erbyn trais ac ymddygiad ymosodol o bob math, nid yn unig troseddau cyllyll. Er i ni weld cynnydd o 105% mewn troseddau cyllyll yng Nghymru dros y ddegawd ddiwethaf, ni ddaethpwyd â'r Angel Cyllyll i Aberystwyth oherwydd unrhyw broblem fawr gyda'r math hwn o drosedd yn yr ardal. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio â meithrin agwedd hunanfodlon, a'm gobaith fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw i'n cymunedau aros yn ddiogel a'n bod yn cymryd agwedd ataliol at leihau trosedd yn y tymor hir. Cynorthwyodd yr Angel Cyllyll i godi ymwybyddiaeth feirniadol o droseddau cyllyll tra'n creu anoddefgarwch eang i ymddygiad treisgar o fewn ein cymunedau. Rwy'n cael fy nghymell yn barhaus i weld Dyfed-Powys fel lle diogel i fyw, gweithio ac astudio ynddo, ac rwyf am i'n pobl ifanc deimlo'n ddiogel. Ni fydd unrhyw fath o drais ac ymddygiad ymosodol yn cael ei oddef. Rwy'n falch iawn o'r hyn yr ydym wedi gallu ei gyflawni dros y mis diwethaf gydag ymweliad yr Angel â Cheredigion. Ardal Dyfed-Powys yw'r mwyaf diogel yng Nghymru a Lloegr; mae gennym gyfraddau troseddu isel, lefelau isel o droseddau treisgar ac yn sicr lefelau isel o droseddau cyllyll, ond nid ydym yn gwbwl ddiogel o ran troseddau o'r fath. Mae neges yr Angel Cyllyll yn ymwneud ag atal gan fy mod wedi fy nghymell yn barhaus i weld ardal Dyfed-Powys fel y lle mwyaf diogel. Rhaid i ymweliad yr Angel Cyllyll â'r Drenewydd ac Aberystwyth fod yn gatalydd i hyrwyddo negeseuon atal allweddol. Rwy'n gobeithio bod y gymunedyn Aberystwyth, Ceredigion, a thu hwnt yn Nyfed-Powys wedi cymryd y cyfle hwn i ddeall y neges allweddol feirniadol am atal troseddu. Edrychaf ymlaen at glywed mwy am yr Angel Cyllyll wrth iddo barhau i deithio ledled y Deyrnas Unedig.





**Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys**

# Cyflwyniad

Cyrhaeddodd yr Angel Cyllyll Aberystwyth ar ddydd Mawrth 31 Mai 2022, yn barod ar gyfer ymweliad mis o hyd â'r dref. Mae'r Angel Cyllyll, a grëwyd gan Ganolfan Gwaith Haearn Prydain yn Sir Amwythig, yn teithio o amgylch y DU mewn ymgais i godi ymwybyddiaeth o sut mae troseddau cyllyll yn effeithio ar gymunedau, teuluoedd, ac unigolion. Lansiodd y Ganolfan eu hymgyrch 'Save a Life, Surrender Your Knife' yn ystod 2015/2016, gan weithio gyda'r Swyddfa Gartref a heddluoedd i gynnal amnestau cyllyll gan gasglu'r deunydd oedd ei angen ar gyfer y cerflun. Yr artist Alfie Bradley greodd y strwythur allan o ddur yn wreiddiol cyn weldio cyllyll, oedd wedi eu diheintio a heb fin, i greu ymddangosiad tebyg i blu'r Angel. Defnyddiwyd dros 100,000 o gyllyll i greu'r cerflun, y cyfan wedi'u casglu gan yr amnestau cyllyll, gan gynnwys cyllyll o ardal Dyfed-Powys.



O'r chwith i'r dde: Y Tad Liam Bradley, Clive Knowles, Y Maer Talat Chaudhri, CHTh Llywelyn a'r Prif Gwnstabl Dr

Mae'r cerflun, sy'n 8 metr o uchder, yn cydnabod y rhai y mae eu bywydau wedi'u difetha gan droseddau cyllyll ac yn gweithredu fel cofeb i deuluoedd sydd sydd wedi dioddef profedigaeth. Bu'r Ganolfan yn gweithio'n agos gyda nifer o elusennau a theuluoedd sydd wedi eu heffeithio gan droseddau cyllyll a throseddau treisgar er mwyn codi ymwybyddiaeth o effaith ddinistriol troseddau cyllyll. Yn ogystal, gwahoddodd y Ganolfan deuluoedd y rhai a fu farw oherwydd troseddau cyllyll a throseddau treisgar i ysgythru negeseuon ar y llafnau i'w cynnwys ar y cerflun.

I rannu negeseuon allweddol Yr Angel Cyllyll o atal, gwrth-drais ac ymddygiad ymosodol, sefydlwyd rhaglen fisol o weithgaredd ymgysylltu. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi rhagor o fanylion am y gweithgaredd ymgysylltu a gynhaliwyd, yn ogystal â'r effaith ar y rhai a fu'n ymweld â'r Angel Cyllyll ac a fu'n rhan o'r prosiect hwn.

# Llywodraethiant

Ym mis Ionawr 2020 yn ystod ymweliad yr Angel Cyllyll â'r Drenewydd, cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i ddod a'r Angel Cyllyll i Aberystwyth, Ceredigion yn 2021. Yn sgil pandemig COVID-19 gohiriwyd yr ymweliad hwn yn anffodus, ond mewn cydweithrediad â Chanolfan Gwaith Haearn Prydain, llwyddodd y Comisiynydd a'i dîm i sicrhau bod yr Angel yn cyrraedd Aberystwyth yn ddiogel ddechrau mis Mehefin 2022.

Cafodd y gwaith cynllunio ar gyfer ymweliad yr Angel ei gynnal gan dîm bychan o staff yn Swyddfa'r Comisiynydd, ar y cyd ag amryw o bartneriaid o Heddlu Dyfed-Powys a'r Cynghorau Sir a Thref i enwi ond rhai.

# Cyrraedd

Cyrhaeddodd yr Angel Cyllyll Aberystwyth gyda'r nos ar 31 Mai 2022, ar ôl taith hir o Corby. Codwyd yr Angel Cyllyll ar Sgwâr Llys y Brenin lle safodd yn falch drwy gydol mis Mehefin. Roedd hwn yn leoliad delfrydol i drigolion y dref, ac i ymwelwyr, gyda golygfa drawiadol allan tuag at y môr.

Ar y pryd dywedodd Gweneira, Clerc Cyngor Tref Aberystwyth *"Pan ddaeth y lori rownd y gornel o Heol y Wig, cefais fy ngolwg gyntaf o'r Angel Cyllyll, a bu'n rhaid i mi ymladd i ddal y dagrau yn ôl, gymaint oedd y wefr o weld y cerflun"*

*''Roedd cryn dipyn o chwilfrydedd wrth i'r torfeydd ymgynnull ar y sgwâr sydd fel arfer yn wag o bobl. Newidiodd yr awyrgylch o'r adeg pan orweddai'r cerflun ar ei gefn i'r adeg y cododd a throi yng nghanol yr awyr – roedd gweld ei wyneb yn rhoi ias i lawr asgwrn fy nghefn i… yn drawiadol o ran maint ac yn fygythiol ei natur gyda'i gorff wedi'i adeiladu o gyllyll. Ac yn y fan honno dyma'r trafodaethau'n dechrau, a'r sgyrsiau am droseddau cyllyll a gychwynnwyd gan ddarn o gelf - gan helpu i droi'r llanw ar droseddau cyllyll."* – Kate Rolt, Hwb Eco.




AMBASSADORS


SCANIA


BUCKLEY'S
MOBILE
CRANE
SERVICES

# Y Seremoni Agoriadol

Cynhaliwyd y Seremoni Agoriadol, dan ofal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn, ar 1 Mehefin wrth droed yr Angel Cyllyll ar Sgwâr Llys y Brenin. Trefnwyd y Seremoni gan dîm bychan yn swyddfa'r Comisiynydd ynghyd â chymorth amhrisiadwy gan unigolion o Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberystwyth. Gwahoddwyd cynrychiolwyr a phartneriaid cymunedol allweddol i fod yn bresennol, ac am ei fod mewn man cyhoeddus, roedd y Seremoni ar agor i'r cyhoedd.




Clywodd y bobl oedd yn bresennol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynglŷn â’r rheswm dros ddod â'r Angel i Aberystwyth. Yna gwahoddodd Mr Llywelyn unigolion allweddol i ddweud ychydig eiriau: Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys Dr Richard Lewis, Maer Aberystwyth Talat Chaudhri, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion y Cynghorydd Bryan Davies, Cadeirydd Canolfan Gwaith Haearn Prydain Clive Knowles, a Chynghorydd Powys, Joy Jones a soniodd am brofiad y Drenewydd.

Daeth unigolion o bob oed i'r Seremoni Agoriadol, a chlywed gan y siaradwyr a fu’n sôn am bwysigrwydd ymweliad yr Angel Cyllyll, ynghyd â’u negeseuon gwrth-drais ac ymddygiad ymosodol allweddol. Roedd y bobl a oedd yn bresennol yn amlwg wedi synnu at yr Angel a sut a pham y crëwyd y cerflun, wrth glywed gan Clive Knowles.

Yn ystod y Seremoni, cyflwynwyd y Siarter Gwrth-Drais Genedlaethol gan Clive Knowles i’r Maer Talat Chaudhri. Mae'r Siarter Gwrth-drais yn blac a ddarperir gan Ganolfan Gwaith Haearn Prydain. Cyflwynwyd y plac i goffau bod y ddinas/dref letyol yn eiriolwr gwrth-drais ac iddynt wneud addewid i ymwrthod â thrais o bob math. Crëwyd y plac i gydnabod ymdrechion di-ildio y dref letyol fel Siarter Gwrth-drais Genedlaethol, wrth iddynt barhau â’r ymdrechion a’r rhaglen i addysgu eu hieuenctid.

Yn dilyn y Seremoni, cafodd y Comisiynydd a nifer o siaradwyr a bobl fu’n bresennol eu cyfweld gan y cyfryngau, tra bod tîm y Comisiynydd yn ymgysylltu â phartneriaid a’r cyhoedd mewn perthynas â’r Angel a’r gweithgareddau ymgysylltu sydd ar y gweill.

# Mehefin 2022








# Rhaglen ymgysylltu

Gyda chymorth nifer o bartneriaid, datblygodd tîm y Comisiynydd Raglen Ymgysylltu ar gyfer y mis. Diweddarwyd y Rhaglen ac ychwanegwyd ati wrth i'r wythnosau fynd heibio, gyda diddordeb yn y prosiect yn cynyddu a cheisiadau am gymryd rhan yn cael eu cyflwyno.

Yn ystod ymweliad yr Angel Cyllyll ag Aberystwyth defnyddiwyd theatr Arad Goch a hwb ECO Aberystwyth fel y prif ganolfannau gweithgaredd ochr yn ochr â safle’r Angel Cyllyll. Defnyddiwyd yr hwb ECO fel siop dros dro a gallai'r CHTh gynnal sesiynau o amgylch yr Angel Cyllyll. Cafodd galeri theatr Arad Goch hefyd ei defnyddio fel canolfan i gynnal sesiynau. Arad Goch hefyd oedd lleoliad y seremoni gloi lle bu myfyrwyr o’r grŵp drama yn perfformio dawns greadigol i’r rheiny oedd yn bresennol. Seiliodd y myfyrwyr eu dawns o amgylch yr Angel Cyllyll gan weithio ochr yn ochr â'u hathro i ddatblygu map meddwl yn seiliedig ar eu meddyliau a'u teimladau ynghylch yr Angel.

Dywedodd Kate Rolt o’r Hwb Eco, *"Y cerflun yma ysgogodd sgyrsiau am droseddau cyllyll - gan helpu i droi’r llanw ar droseddau cyllyll gan fy mod yn gobeithio bod Hwb Eco Aber wedi bod yn bwynt cyswllt da i’r cyhoedd gyda Swyddfa’r Comisiynydd, a bod y gofod wedi bod o gymorth i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan drais.”*

Meddai Nia Rees o Arad Goch, *"Roedd Cwmni Theatr Arad Goch yn hynod falch o allu chwarae rhan fechan yn y prosiect yma, a braint oedd cael cyfarfod â chynifer o bobl wrth gyd-drefnu'r digwyddiadau. Roedd yn hyfryd croesawu pobl na fyddai fel arfer yn dod i Ganolfan Arad Goch, a chael gweithio gydag asiantau a grwpiau newydd. Mae'r holl weithgareddau wedi bod o fudd mawr i'r Gymuned, a gobeithio y bydd prosiect tebyg yn dilyn yn fuan."*

# Ysgolion a Cholegau

Er ei bod yn gyfnod prysur i ysgolion gyda disgyblion a myfyrwyr yn sefyll arholiadau, bu llawer o grwpiau ysgol,myfyrwyr, a phlant a phobl ifanc yn ymweld â'r Angel Gyllyll.

Yn ogystal â hyn, bu tîm INTACT Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio'n agos gyda phobl ifanc ar y negeseuon atal allweddol a godwyd gan yr Angel Cyllyll, gan gynnwys myfyrwyr o Goleg Ceredigion. Cynhaliwyd prosiect cyfryngau coleg yn Arad Goch, lle cafodd myfyrwyr celf fewnbwn gan dîm INTACT a'r cyfle i ddatblygu eu darnau celf eu hunain.



Photograph: @penygloddfa

Dywedodd SCCH Michala Quinn o dîm INTACT Heddlu Dyfed-Powys, *"Bu myfyrwyr celf blwyddyn gyntaf o gampws Aberystwyth Coleg Ceredigion yn ymweld â'r Angel Cyllyll. Myfyriodd y myfyrwyr ar yr effaith y gall troseddau cyllyll ei chael ar bobl a chymunedau. Roedd yn bleser bod yn bresennol tra bu'r artistiaid ifanc hynod dalentog hyn yn cynhyrchu eu darnau celf syfrdanol a theimladwy gan adlewyrchu eu canfyddiadau artistig o'r Angel Cyllyll ac effaith ddinistriol trosedd cyllyll."*

# Tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal Cyngor Ceredigion

Drwy gydol y mis, cynhaliodd y tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal sesiynau rhyngweithiol ar safle'r Angel Cyllyll ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed, i godi ymwybyddiaeth o ddioddefwyr troseddau cyllyll, canlyniadau a difrod troseddau cyllyll, a sesiynau ar arferion adferol.

Defnyddiodd y tîm eu Darpariaeth Symudol – fan fawr wedi'i pharcio wrth ochr yr Angel Cyllyll, i ddarparu profiad rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â chario cyllyll, drwy gemau a chwisiau. Fe wnaethon nhw gyflwyno Sesiwn Cymorth Cyntaf ar ddelio ag anafiadau troseddau cyllyll ac fe ddangoson nhw fideos rhyngweithiol ar brofiadau parafeddygon yn trin dioddefwyr troseddau cyllyll oedd wedi'u hanafu'n ddifrifol ac wedi'u hanafu'n angheuol. Canolbwyntiwyd ar atal pobl ifanc rhag cario cyllyll; sy'n hanfodol wrth gefnogi ymweliad yr Angel Cyllyll drwy helpu i godi ymwybyddiaeth o ddioddefwyr troseddau cyllyll a'r canlyniad a'r difrod sy'n digwydd yn sgîl

hyn. Roedd y sesiynau arferion adferol yn canolbwyntio ar unioni'r niwed a wnaed, er mwyn annog newid parhaol ac atal.

Dywedodd Gavin Witte, Cydlynydd Gwaith Ieuenctid Cymunedol *"Codwyd pwyntiau trafod mawr i bobl ifanc yn sgîl ymweliad yr Angel Cyllyll ynghylch troseddau cyllyll ledled y DU ond hefyd yn y modd y mae'n effeithio arnom yn ehangach yn ein hardal leol. Cododd eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o faterion fel y gyfraith a'r canlyniadau a sut mae troseddau cyllyll yn cael mwy o effaith ar y gymuned nag yr oedden nhw'n credu'n wreiddiol fel yr effeithiau ar deuluoedd dioddefwyr."*






# Tîm CYFAN Heddlu Dyfed-Powys




Cynhaliodd tîm CYFAN Heddlu Dyfed-Powys sesiynau a gweithgareddau ymgysylltu niferus ac amrywiol drwy gydol ymweliad yr Angel Cyllyll:

- Gweithdy Meithrin Cadernid Cymunedol ar ddiwrnod y Seremoni Agoriadol, lle gwahoddwyd grwpiau cymunedol, sefydliadau trydydd sector ac aelodau partneriaeth diogelwch cymunedol i ymuno â thrafodaeth ar sut y gellid datblygu cydnerthedd cymunedol ar draws Aberystwyth a'r cyffiniau. Nododd Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth *"eu bod nhw wir wedi mwynhau a'i bod yn ddefnyddiol dysgu mwy am y pwnc. Roedd yn braf ac yn anffurfiol ond yn atyniadol."*
- Roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu INTACT (SCCH) yn ymgysylltu'n rheolaidd ag aelodau o'r cyhoedd ar safle'r Angel Cyllyll.
- Ar gais y sefydliad, cynhaliodd tîm INTACT gyfarfod â staff Tai Cymru a Thai'r Gorllewin i drafod yr Angel Cyllyll, troseddau cyllyll a'u perthynas â digartrefedd a chysgu ar y stryd.
- Sesiynau galw heibio anffurfiol yn yr Hwb Eco i blant a phobl ifanc drafod troseddau cyllyll a throseddau trefniadol difrifol. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys gemau, eitemau sialc a lliwio i blant a phobl ifanc i'w defnyddio.
- Sesiynau caeedig ochr yn ochr â Choices, rhaglen newid ymddygiad, lle buont yn ymgysylltu â grwpiau bach o bobl ifanc.
- Gweithdy *'Pam Cyllyll?'* lle bu plant ac oedolion ifanc yn trafod pam y gallent fod yn cario cyllell, yn ogystal â pheryglon gwneud hynny.
- Prosiect Cyfryngau'r Coleg, fel y nodwyd eisoes.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

- Cyfarfod gyda staff Prifysgol Aberystwyth i drafod trais difrifol a throseddau trefniadol, trosedd ar y campws a sut i gydweithio'n well ar ddiogelwch myfyrwyr.
- Gweithdy Atal Trais i fyfyrwyr prifysgol a cholegau.




# *Swyddogion Cyswllt Heddlu Ysgolion*

Bu swyddogion yn ymweld ag ysgolion ar draws Ceredigion fel rhan o'u rôl bob dydd gan drafod a rhoi gwybod i ddisgyblion am yr Angel Cyllyll a'i addewid gwrth-drais.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# Cymorth i Ddioddefwyr

Cynhaliodd Tîm Troseddau Casineb *Victim Support* sesiwn ar-lein ar rôl Canolfan Cymorth Casineb Cymru, yn ogystal â sut y gall casineb a thrais sy'n gysylltiedig â chasineb effeithio ar rywun, a pha gymorth sydd ar gael.

Meddai Becca Rosenthal, Rheolwr Hyfforddiant ac Ymgysylltu Cymunedol Troseddau Casineb, *"Fe gawson ni gyfleoedd i gyfrannu at y rhaglen o ddigwyddiadau a llwyddon ni i gynnal ein sesiwn ein hunain yn edrych ar effaith trais a niwed sy'n gysylltiedig â chasineb yn ein cymunedau."*

*"Mae'n amlwg iawn bod gan y Comisiynydd a'i dîm ffocws ac ymroddiad gwirioneddol i sicrhau bod ymweliad yr Angel Cyllyll ag Aberystwyth yn ddefnyddiol ac yn ystyrlon i'r gymuned leol ac yn wir i'r Sir gyfan. Diolch am y cyfle i ymgysylltu'n ystyrlon ac am gydnabod ein cyfraniad".*

# Fearless

Fearless yw cangen ieuenctid Taclo'r Taclau (Crime Stoppers) ac mae'n safle lle gall pobl ifanc gael mynediad at wybodaeth anfeirniadol a chyngor am droseddu a throseddoldeb ac adrodd yn ddienw i Daclo'r Taclau.

Yn ystod ymweliad yr Angel Cyllyll ag Aberystwyth, fe ymgysylltodd Fearless â phobl ifanc a phartneriaid ynghylch canlyniadau cario cyllell, a sut i godi llais 100% yn ddienw i Daclo'r Taclau neu [Fearless.org.](Fearless.org)

# New Pathways



Fel rhan o'r rhaglen ymgysylltu, cynhaliodd New Pathways Weithdy 'Edrych ar effeithiau trawma a PTSD yn sgîl troseddau treisgar' yn Arad Goch. Darparwyd y gweithdy gan y Pennaeth Hyfforddiant ac Ymchwil Debbie Woodroffe a Pete Griffiths, ymgynghorydd a hyfforddwr profiadol iawn.

Amlygodd y gweithdy yr effaith y mae troseddau treisgar yn ei chael ar unigolion a chymunedau yn ogystal ag ymyriadau a thechnegau a all helpu i fynd i'r afael â'r mater.

Roedd y sesiwn hon yn allweddol i ymgysylltu o amgylch yr Angel Cyllyll gan y gall y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan droseddau cyllyll brofi trawma.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru

Mae Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru yn darparu gwasanaeth cyfrinachol yn rhad ac am ddim ledled Ceredigion i unrhyw un sy'n dioddef neu'n profi cam-drin domestig beth bynnag eu hoedran, hil, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, neu amgylchiadau ariannol.

Cynhaliodd staff y mudiad weithdy fel rhan o brosiect yr Angel Cyllyll: "Pam nad yw hi jyst yn gadael?" Edrychodd y gweithdy hwn ar fythau a safbwyntiau cam-drin domestig, sut mae'n parhau i effeithio ar fenywod, dynion, a phlant, a'r gefnogaeth sydd ar gael.

# ''Premier League Kicks'



Mae rhaglen 'PL Kicks' Sefydliad Clwb Pêl-droed Abertawe, a ariennir gan y Comisiynydd, yn defnyddio pŵer pêl-droed a chwaraeon eraill i greu cymunedau mwy diogel, cryfach a mwy parchus trwy ddatblygu potensial pobl ifanc.




Daeth staff o Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe a Gwasanaethau Ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion, yn ogystal â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn, Uwch-arolygydd Heddlu Dyfed-Powys Ross Evans a thîm INTACT Heddlu Dyfed-Powys, gyda'r rhai a gymerodd ran yn 'PL Kicks' Aberystwyth, ar ymweliad â'r Angel Cyllyll.

Yn ystod yr ymweliad cymerodd y bobl ifanc ran mewn gweithgareddau rhyngweithiol gyda'r nod o addysgu a chodi ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll a chydnabod effaith troseddau treisgar ar deuluoedd a chymunedau.

Dywedodd SCCH INTACT Michala Quinn, *"Rwy'n teimlo'n freintiedig fy mod wedi bod yn rhan o weithio gyda phobl ifanc yn ystod ymweliad yr Angel Cyllyll a chyflwyno'r sesiwn hon ochr yn ochr â fy nghydweithwyr yn 'PL Kicks'."*

# SAMM National

*Mae SAMM National (Support after Murder and Manslaughter) yn elusen gofrestredig sy'n cynnig cefnogaeth i'r rhai sydd wedi cael profedigaeth oherwydd llofruddiaeth neu ddynladdiad. Ers 2013 mae nhw wedi cynnal aelodaeth dreigledig o 4,000, gan brofi bod angen cymorth hirdymor/gydol oes. SAMM National yw un o'r elusennau hynaf a mwyaf sefydledig sy'n gweithio ym maes profedigaeth drawmatig ac mae'n un o'r unig elusennau sy'n darparu sylw cenedlaethol.*

*Yn ystod ymweliad yr Angel Cyllyll, cynhaliodd SAMM National weithdy ar effeithiau ac effaith llofruddiaeth, effaith llofruddiaeth ar deuluoedd, a sut mae SAMM National yn cefnogi teuluoedd sydd wedi eu heffeithio gan lofruddiaeth a dynladdiad.*

*Ysgrifennodd aelodau o'r elusen gerddi a gafodd eu darllen gan yr actor lleol, Julian Lewis Jones, yn y gweithdy.*

*Roedd Lesley Rees, un o ymddiriedolwyr yr elusen hefyd yn bresennol a dyma hi'n rhannu ei phrofiad o golli perthynas drwy lofruddiaeth. Pwysleisiodd Lesley bwysigrwydd negeseuon yr Angel Cyllyll.*

*Dywedodd Ymddiriedolwr Cenedlaethol SAMM, Rose Dixon, "Braint oedd teithio i Aberystwyth i ymuno â'n haelod SAMM National, Lesley Rees, i wneud cyflwyniad i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn cydweithrediad â'r Angel Cyllyll anhygoel. Eglurais am realiti llofruddiaeth i'r teulu mewn profedigaeth a pha mor drawmatig y gall holl broses ymchwiliad yr heddlu, yr achos llys a'r ddedfryd fod i'r bobl hyn."*

*"Mae bod mewn profedigaeth fel hyn yn ynysig iawn oherwydd mae'n debyg na fydd teuluoedd byth wedi cyfarfod â pherson arall sydd wedi colli anwylyd trwy lofruddiaeth. Ethos pennaf SAMM National yw: "Dydych chi ddim ar eich pen eich hun" wrth i ni gefnogi'r teulu ar y daith ofnadwy a thrawmatig hon oherwydd ein bod wedi cael profedigaeth tebyg a gallwn ni uniaethu a dweud "Ydw, rwy'n gwybod sut deimlad yw hynny". Cafwyd cyflwyniad pwerus gan Lesley ar effeithiau llofruddiaeth arni hi a'i theulu a sut roedd SAMM National wedi eu helpu."*

*"Hoffwn ddiolch i Clive o Waith Haearn Prydain am ei weledigaeth wrth drefnu'r amnest cyllyll, sef o ble y daeth y cyllyll ar gyfer yr Angel Cyllyll ac i Alfie Bradley am ei gerflun gwych sy'n adlewyrchu'r boen y mae ein teuluoedd yn ei brofi. Diolch i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu am ei flaengaredd wrth gael yr Angel Cyllyll i Aberystwyth ac am wahodd SAMM National i gymryd rhan yn y digwyddiad."*

## Cerdd a ysgrifennwyd gan aelod o SAMM Cenedlaethol:

**Un ergyd, un fwled, un gyllell, un bywyd**

Roedd y dyn o'r stad yn rhedeg yn hwyr, yn rhedeg am y bws pan darodd yn ddamweiniol mewn i fachgen a'i ffrind. Aeth y bechgyn yn wallgof a'r hyn sy'n drist yw bod un ohonynt wedi tynnu cyllell a chymryd bywyd y dyn.

**Un ergyd, un fwled, un gyllell, un bywyd**

Mae yna fam alarus yn sgrechian at yr awyr uwch ei phen. Ar ei gliniau wrth y bedd mae'n crafangu ar y ddaear sydd dros y bachgen y rhoddodd ei bywyd iddo ar ôl ei eni. Mae ei chalon yn deilchion ac mae'r dyfodol yn ei llethu.

**Un ergyd, un fwled, un gyllell, un bywyd**

Nawr mae yna dad galarus sydd ar ddihun yn y nos yn dymuno ei fod wedi gwneud mwy o ymdrech, mae ei euogrwydd allan o reolaeth a does dim enaid ganddo. Mae am gymryd lle ei fab er mwyn achub gras.

**Un ergyd, un fwled, un gyllell, un bywyd**

Nawr mae yna ferch alarus sydd i fod i briodi ond dyw hi ddim yn gallu wynebu codi o'r gwely. Mae diwrnod gorau ei bywyd wedi ei ddifetha gan na fydd ei thad yno i'w cherdded hi i'r allor.

**Un ergyd, un fwled, un gyllell, un bywyd**

Nawr mae yna un galarus, brawd oedd bob amser yn meddwl y gallai amddiffyn ei Fam a'i deulu cyfan. Nawr, mae ar goll yn nyfnder gwallgofrwydd, yn byw ar y dibyn ac yn ymestyn am ei ddiod nesaf.

**Un ergyd, un fwled, un gyllell, un bywyd**

Nawr mae yna chwaer alarus sy'n teimlo ei bod hi wedi'i dal mewn corwynt oherwydd ei bod hi'n gweld eisiau ei brawd mawr. Fe fyddai bob amser yn codi'r ffôn ac yn gwrando, mae hi'n cael trafferth gweld mae dyma ei realiti hi nawr.

**Un ergyd, un fwled, un gyllell, un bywyd**

**Ond nid un bywyd yn unig sy'n cael ei gymryd, mae yna deulu cyfan sydd bellach yn ceisio ymdopi gyda thor-calon.**

# Ffair Gwrth-Drais yr Angel Cyllyll

Yn ogystal â'r gweithdai a'r sesiynau yn y Rhaglen Ymgysylltu, cydlynodd tîm y Comisiynydd Ffair Gwrth-Drais ar safle'r Angel. Gwahoddwyd partneriaid i gynnal stondin yn y digwyddiad i'w galluogi i ymgysylltu â'r cyhoedd a'u cynghori am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.  Roedd y partneriaid a oedd yn bresennol yn cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, INTACT Heddlu Dyfed-Powys, timau recriwtio a gwirfoddoli, New Pathways, Fearless (Taclo’r Taclau), POBL, Hafan Cymru, Llamau, Choices, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS), Cymorth i Ddioddefwyr, Tîm Cydlyniant Cymunedol y Cyngor, yn ogystal â chynrychiolwyr gwasanaethau ymgysylltu, gwirfoddol a chomisiynedig o swyddfa'r Comisiynydd.

Ceir adborth isod gan rai a gymerodd ran:




Dywedodd Daniel Kitson-James o Choices, *"Cynhaliwyd y ffair Gwrth-drais yn Aberystwyth ac roedd y digwyddiad yn un hwylus. Roedd yn ddiwrnod da a wnaeth godi ymwybyddiaeth y gymuned leol am droseddau cyllyll a ble i gael cefnogaeth a chyngor os oedd angen. Cafwyd tipyn o ddiddordeb gan y gymuned hŷn, gan ofyn cwestiynau am wasanaethau lleol a rhwydweithiau cymorth. Roedd yn gyfle gwych i rwydweithio gyda gwasanaethau eraill i weld beth sy’n digwydd gyda nhw mewn meysydd eraill. Ar y cyfan, roedd awyrgylch y diwrnod yn gadarnhaol, ac fe groesawodd y gymuned yr ymgyrch.”*

Dywedodd Hayley Fry o Daclo’r Taclau, *"Mae troseddau cyllyll yn bryder parhaus a phryderus yng Nghymru, yn enwedig gan ei fod yn effeithio'n arbennig ar bobl ifanc. Gallwch helpu i amddiffyn eich teulu drwy roi gwybod am unrhyw un rydych chi'n ei adnabod sy'n cario cyllell, 100% yn ddienw."*




*"Mae rhai pobl yn meddwl ar gam y gallai cario cyllell eu hamddiffyn. Yn anffodus, camargraff llwyr yw hyn. Mae cario ac yna defnyddio cyllell yn dangos eich bod yn bwriadu achosi niwed difrifol i rywun - ac mae hynny'n golygu dedfryd hir yn y carchar. Mae mwy o gyllyll ar y strydoedd ond yn arwain at un canlyniad, sef mwy o bobl yn cael eu niweidio. Gall troseddau cyllyll effeithio ar unrhyw un, nid dim ond pobl mewn gangiau."*

*"Mae gan bob un ohonom y pŵer i helpu i greu'r math o gymuned yr hoffwn fyw ynddi. Rydyn ni i*

*gyd eisiau teimlo'n ddiogel yn cerdded i lawr y stryd, peidio â gorfod edrych dros ein hysgwydd, peidio â theimlo bod yn rhaid i ni amddiffyn ein hunain. Gyda'n gilydd, gallwn greu Cymru sy'n ddiogel i bawb."*

*Mae gan lawer o bobl bryderon am adrodd ar droseddau cyllyll, ac yn ddealladwy maen nhw'n ofni y bydd y troseddwyr y maen nhw'n adrodd amdanyn nhw'n dial. Yn y pen draw, rydym am roi gwybod i bobl, drwy godi llais, 100% yn ddienw drwy Taclo'r Taclau neu Fearless.org, y gallwch helpu i atal troseddau cyllyll."*

*''Roedd Taclo'r Taclau'n hapus i gefnogi Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Roedd yr Angel Cyllyll yn ganolbwynt i ymwelwyr a thrigolion Aberystwyth. Rhoddodd hyn gyfle i elusen Taclo'r Taclau siarad â chymunedau am droseddau treisgar sy'n effeithio ar Gymru a sut y gallan nhw gadw'r gymuned yn fwy diogel. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr a gefnogwyd gan sefydliad arall."*

Dywedodd Sarah Baldwin o POBL*, "Roedd yn teimlo'n bositif i fod yn ôl i ryw fath o gyfarfod normal a chefnogi'r cyhoedd a gwasanaethau eraill eto drwy ddelwedd mor bwerus a thrawiadol â'r Angel Cyllyll."*

Dywedodd Adele Jones, Cydlynydd Dinasyddion Mewn Plismona Heddlu Dyfed-Powys *"Rwy'n falch iawn fy mod i wedi gallu cymryd rhan yn y digwyddiad yma, roedd hi'n wych gweld cymaint o bobl ar y safle."*

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# *Adborth gan Bobl oedd yn Bresennol*

Gydol y mis roedd Llyfr Myfyrdodau ar gael i ymwelwyr rannu eu meddyliau a'u myfyrdodau ar yr Angel Cyllyll.

Isod mae rhai dyfyniadau o'r llyfr.

*''Effaith emosiynol iawn. Hardd, dychrynllyd, a phositif.''*

*“ Rwy’n poeni bod 'na dipyn o ogoneddu'r gyllell yn hwn, ond wrth ei phasio hi'n ddyddiol a dod i sylweddoli nad yw'n asgetig i mi (mam dosbarth canol mewn tref fechan) ond wedi ei greu yn rhannol i greu sioc ac i syfrdanu y rheiny sy’n cario cyllyll, dynion ifanc fel fy nai sy’n cael eu dylanwadu gan unigolion sy’n un orchest fawr o rym a thrais ‘tattoo-esque’. Gyda hyn mewn golwg dydw i ddim yn feirniadol, ac mae'r prawf yn y blwch amnest - os oes cyllyll yn cael eu postio yna mae hynny’n beth da iawn. Da iawn chi am brocio'r meddwl mewn gofod anodd.''*

*''Mae'n rhoi cyfle i ni feddwl ac adlewyrchu ar y niwed sy'n cael eu hachosi drwy gario cyllell.''*

*''Yn deimladwy iawn. Darn o gelf anhygoel.''*

*''Teimladwy iawn, offeryn gwych i'w ddefnyddio i addysgu ein pobl ifanc am effeithiau Troseddau Cyllyll.''*

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# Y Wasg a'r Cyfryngau Cymdeithasol

Cafodd y cerflun gryn sylw yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cyn iddo gyrraedd Aberystwyth:

- "Knife Angel to go on display in Aberystwyth town centre", cambrian-news.co.uk
- "Aberystwyth Town to welcome Knife Angel sculpture", The Ceredigion Herald

Roedd yn dda gweld llawer o gynrychiolwyr y cyfryngau ar y safle trwy gydol y mis, gan roi cyhoeddusrwydd haeddiannol i ymweliad Yr Angel Cyllyll a'r negeseuon pwysig a oedd yn cyd-fynd â'r cerflun.

Cafodd y Seremoni Agoriadol sylw yn y wasg leol. Cynhaliodd BBC Cymru gyfweliadau ar ran BBC 1 Wales, S4C, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn, Clive Knowles o Ganolfan Gwaith Haearn Prydain, y Prif Gwnstabl Dr Richard Lewis, a Maer Cyngor Aberystwyth Talat Chauhdri. Roedd y Seremoni Agoriadol hefyd wedi ymddangos yn yr erthyglau canlynol:

- "Aberystwyth Town welcomes Knife Angel sculpture as Police promote anti-violence", The Ceredigion Herald

- "Aberystwyth: Yr Angel Cyllyll yn tynnu sylw at 'effaith ddinistriol' troseddau - Newyddion y BBC

Yn ogystal, cyhoeddwyd erthyglau a chyfweliadau yn ystod yr ymweliad, gan ddangos pa mor bwysig oedd yr ymweliad hwn i'r dref:

- "Sister of murder victim to give talk in Aberystwyth today", cambrian-news.co.uk
- ""Last chance to see knife angel in Aberystwyth", cambrian-news.co.uk
- "Bwrw Golwg - Gwenfair Griffith yn trafod yr Angel Cyllyll, digio gyda Boris Johnson a chofio Bruce Kent", BBC Sounds

Isod mae rhai enghreifftiau o lwyfannau postiadau cyfryngau cymdeithasol:

**@taibarcud** @taibarcud · 06 Jun

Ydych chi wedi bod i ymweld â'r **Angel** Gyllyll yn eto? Have you been to visit the **Knife Angel** yet? It is on display at Llys y Brenin square in #Aberystwyth until the 29th of June as a physical reminder of the effects of violence and aggression. A very powerful sculpture!



**GICeredigionYS** @GICeredi... · 21 Jun

Rydyn wedi bod yn rhan o fynd â grwpiau i'r Digwyddiad Cyllell **Angel** yn **Aberystwyth**! Bydd y digwyddiad yn cael ei gyflwyno tan ddiwedd y mis!

We have been involved in taking groups to The **Knife Angel** Event in **Aberystwyth**! The event will be delivered until the end of the month!



**New Pathways**
@newpathways_

Lisa and Ellen were out in the sun today at the #KnifeAngel in Aberystwyth, raising awareness of our sexual violence support services. It was great to be there alongside other great support organisations. @DPOPCC #TraumaSupport



**Carmarthenshire LGBTQ+ Project**
@CarmLGBTProject

If you're in Aberystwyth before the end of the month, check out the 'Knife Angel' situated in the town centre. Its a towering monument standing up against all forms of violent crime. Link follows.

9:24 · 23 Jun 22 · Twitter Web App

**2** Likes

**Carmarthenshire LGBTQ+ Pro...** · 6d

Details of events Police & Crime Commissioner here: engagement-programme-160622.pdf (dyfedpowys-pcc.org.uk)

# Y seremoni gloi

Ddydd Mercher 29 Mehefin, cynhaliwyd Seremoni Gloi i nodi ymadawiad yr Angel Cyllyll o Aberystwyth.

Cynhaliwyd y Seremoni yng Nghwmni Theatr Arad Goch a chafwyd presenoldeb da gyda chynrychiolwyr o'r holl bartneriaid allweddol a fu'n ymwneud â'r prosiect.

Agorwyd y Seremoni gan y Comisiynydd drwy wahodd yr unigolion canlynol i ddweud ychydig o eiriau: Yr Uwch-arolygydd Ross Evans o Heddlu Dyfed-Powys, Harri-Evans Mason a SCCH Michala Quinn o dîm INTACT Heddlu Dyfed-Powys, Lesley Rees o SAMM National a ddarllenodd gerdd aelod ar effeithiau llofruddiaeth, Maer Aberystwyth, a Clive Knowles.

Cyflwynwyd nifer o dystysgrifau i Clive Knowles i gydnabod y cerflun cenedlaethol yn erbyn trais ac ymddygiad ymosodol, gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Heddlu Dyfed-Powys, Cyngor Sir Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth, Coleg Ceredigion, Arglwydd Raglaw ac Uchel Siryf Dyfed.

Cyflwynodd y Comisiynydd dystysgrif o ddiolch a chydnabyddiaeth o'u gwaith caled i'r holl bartneriaid sy'n ymwneud â'r prosiect, gan gynnwys:

- Heddlu Dyfed-Powys
- Theatr Cwmni Arad Goch
- Canolfan Groeso Aberystwyth
- Cyngor Tref Aberystwyth
- Tîm INTACT Heddlu Dyfed-Powys
- Cyngor Sir Ceredigion
- Llwybrau Newydd
- Tîm Plismona Bro Aberystwyth
- Fearless
- Rhaglen Ysgolion Heddlu Dyfed-Powys Ceredigion
- Prifysgol Aberystwyth
- Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru
- 'PL Kicks'
- SAMM National
- Choices
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Hwb ECO Aberystwyth
- Tîm Gwasanaethau Amgylcheddol a Phriffyrdd Cyngor Sir Ceredigion
- POBL
- Llamau

- Tîm Cefnogi Dioddefwyr Troseddau Casineb
- Goleudy
- Coleg Ceredigion
- Radio Aber
- Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS)



Derbyniodd Cynghorydd Sir Powys, Joy Jones o'r Drenewydd, y Siarter Gwrth-Drais Cenedlaethol hefyd gan Clive Knowles yn y Seremoni Gloi, ar gyfer ymweliad blaenorol yr Angel Cyllyll â'r Drenewydd ym mis Ionawr 2020.

Daeth y Seremoni i ben gyda Chaplan Gwirfoddol yr Heddlu Samantha Jones yn arwain y bobl oedd yn bresennol mewn gweddi ac ennyd o dawelwch i gofio’r rhai yr effeithiwyd arnynt gan droseddau cyllyll a throseddau treisgar, ac i fyfyrio ar amser yr Angel yn Aberystwyth a’i negeseuon atal a gwrth-drais pwysig.

Dywedodd Uwch-arolygydd Heddlu Dyfed-Powys Ross Evans, "Rydyn ni'n falch iawn ein bod ni wedi cael y cyfle i dderbyn yr Angel Cyllyll yn Aberystwyth eleni. Er nad ydym yn ystyried bod gennym broblem trosedd cyllyll yn y sir, rydym yn awyddus i’w chadw felly. Mae gan yr Angel y gallu i dynnu pobl i mewn a chymryd eiliad i fyfyrio sy'n eithaf pwerus. Mae hyn wedi ein helpu ni i ddechrau sawl sgwrs bositif gyda phobl ynghylch plismona a diogelwch y cyhoedd. Rwy'n credu ei fod wedi ein helpu i gynyddu'r ymddiriedaeth a'r hyder yn yr heddlu lleol ac asiantaethau partner. Hoffwn ddiolch i bawb yn y dref am eu cefnogaeth yn ystod y mis. Diolch hefyd i'r cerflunwyr a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu."

# Mehefin 2022

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner








# Amnest Cyllyll

Mae Bin Amnest Cyllyll yn teithio gyda'r Angel Cyllyll ac yn cael ei osod o flaen y cerflun trwy gydol yr ymweliad. Drwy ymgysylltu ar y safle ac ar y cyfryngau cymdeithasol, cafodd trigolion eu hannog i 'ildio cyllyll i achub bywydau'.

Cafodd y bin ei wagio ddwywaith yn ystod y mis, gyda nifer o gyllyll yn cael eu cymryd bob tro a’u storio’n ddiogel yng Ngorsaf Heddlu Aberystwyth.  Mae arfau angheuol wedi'u cymryd oddi ar y strydoedd gan atal niwed posibl drwy wneud hynny. Bydd y cyllyll yn cael eu trosglwyddo i Ganolfan Gwaith Haearn Prydain a'r gobaith yw eu defnyddio i greu cerflun ystyrlon pellach.





# Gwaddol

## *Cynyddu Ymwybyddiaeth*

Mae dod â'r Angel Cyllyll yn ôl i Gymru am yr eildro yn amlygu ymrwymiad y Comisiynydd i atal troseddu a lleihau troseddau treisgar. Cynhaliodd sawl sefydliad sesiynau drwy gydol y rhaglen ymgysylltu mis o hyd, gan sicrhau mwy o ymwybyddiaeth drwy gydweithio. Roedd y dull hwn yn caniatáu i bobl o bob oed, yn enwedig pobl ifanc, i sefyll yn erbyn trais ac ymddygiad ymosodol o bob math, nid troseddau cyllyll yn unig

## *Mwy o ymwelwyr*

Amcangyfrifir bod cannoedd o unigolion wedi ymweld â'r cerflun gydol y mis, yn ystod y dydd a'r nos. Er nad oes ffigyrau swyddogol wedi eu cofnodi, nodwyd bod nifer yn teithio'n benodol i'r gyrchfan ymwelwyr adnabyddus i weld yr Angel Cyllyll.

## *Nodyn gan y Maer*

Diolchodd Maer Aberystwyth Talat Chaudhri i'r Comisiynydd a phawb a weithiodd ar ymweliad yr Angel Cyllyll: Yn anad dim, y gweithwyr haearn a'i creodd, a phawb a fu'n ymwneud â'r gweithgareddau addysgol i godi ymwybyddiaeth am ganlyniadau trasig gydol oes troseddau treisgar.

Meddai'r Maer, *"Er bod Aberystwyth yn ardal sydd â lefelau troseddu isel, mae trais yn effeithio ar bawb, ac mae Aberystwyth yn sefyll mewn undod gyda'r holl ddioddefwyr a'u teuluoedd ym mhobman. Dywedodd ei fod yn ddarn heriol a sobreiddiol o gelfyddyd gyhoeddus, a dyna'r bwriad, ond y gallai pob un o'r miloedd lawer o gyllyll a roddwyd a phob sgwrs a ysbrydolwyd gan yr Angel Cyllyll olygu bywyd a theulu yn cael eu hachub o drasiedi cyffelyb. Yn ystod ei ymweliad llwyddiannus ag Aberystwyth, roedd yn ganolbwynt i sylw cyhoeddus gan ddenu ymwelwyr a chreu trafodaeth am droseddau treisgar a sut i'w hatal".*

# *Partneriaeth y dyfodol*

Gwelodd y rhaglen ymgysylltu fis o hyd lawer o weithio mewn partneriaeth a rhwydweithio. Bydd perthnasau a chysylltiadau a wnaed o ganlyniad i'r prosiect hwn yn parhau i esblygu ar ôl iddo gael ei gwblhau.

O ganlyniad i gyfarfod a gynhaliwyd yn ystod ymweliad yr Angel Cyllyll, bydd tîm CYFAN Heddlu Dyfed-Powys a Phrifysgol Aberystwyth yn gweithio’n agos ochr yn ochr â’i gilydd wrth symud ymlaen er mwyn creu gwell perthnasoedd ynghylch rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth, yn ogystal ag integreiddio hyfforddiant i staff a myfyrwyr ar Droseddau Cyllyll a Llinellau Cyffuriau. Er mwyn gwneud hyn, maent hefyd yn gobeithio archwilio cyfleoedd ar gyfer rolau ar y cyd rhwng Heddlu Dyfed-Powys a'r Brifysgol. Mae Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ill dau yn eiriol dros berthynas gryfach rhwng yr heddlu a darparwyr Addysg Uwch er mwyn gwella cyfnewid gwybodaeth, cydweithio a phartneriaethau.

Yn ôl Harri Evans-Mason *"Mae partneriaethau wrth fynd i'r afael â Thrais Difrifol yn allweddol. Bydd mabwysiadu dull system gyfan o dan lens iechyd y cyhoedd yn galluogi partneriaid i adeiladu gwytnwch i'r niwed mwyaf difrifol mewn cymunedau”.*







Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu Police
DYFED
POWYS